# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-14-08 Papur 3 : 16 Hydref 2008

### Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o'r deisebau sydd i gael ystyriaeth gychwynnol gan y pwyllgor ar 16 Hydref 2008.

### (i) P-03-122 Chwarel Hafod

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â dynodi Chwarel Hafod yn safle o Bwysigrwydd Cenedlaethol.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Grŵp Amgylcheddol Hafod. Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at benderfyniad a wnaed yn 2004 gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y pryd.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-122.htm

### (ii) P-03-125 Tollau Pont Cleddau

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnal trafodaethau â Chyngor Sir Benfro i ddod o hyd i gynnig derbyniol er mwyn dileu'r tollau ffordd ar Bont Cleddau, Sir Benfro.

Efallai y bydd hyn yn golygu cymryd perchnogaeth o'r bont neu sybsideiddio'r tollau.  Nodwn hefyd fod Llywodraeth yr Alban wedi dileu tollau pob pont yn yr Alban.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel e-ddeiseb gan Andrew Lye. Cafwyd 30 o lofnodion ar y ddeiseb.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-125.htmP-03-125%20-%20Deiseb%20i%20ddileu%20tollau%20Pont%20Cleddau

### (iii) P-03-137 Hypothyroidedd

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr. Sarah Myhill a chafwyd 1,443 o lofnodion.

Mae'r deisebwr wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

'It is felt that the current method of diagnosis and management of hypothyroidism, which is dependent on the interpretation of blood tests, [whilst often ignoring the signs and symptoms of hypothyroidism], is flawed and has led to a failure to diagnose and/or adequately treat this debilitating condition in many thousands of patients, rendering many of them profoundly disabled. In addition, many patients are being denied alternatives to thyroxine even when this is merited. The non-diagnosis and mismanagement of hypothyroidism is not only catastrophic for the patients concerned but is a financial drain on the Welsh economy, the NHS, the Benefits Systems and Social Services Systems throughout Wales.'

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-137.htm

**(iv) P-03-156 Dal andl wrth gysgu**

**Geiriad y ddeiseb**

Y dylai Cymru gael polisi effeithiol, cydlynol ac sydd wedi'i gyllido'n dda ar gyfer pob claf sydd ag anhwylder cysgu. Byddai hyn yn cynnwys darparu peiriannau sy'n Pwyso'n Barhaus ac yn Gadarnhaol ar y Sianel Aer (CPAP) ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael diagnosis o Ddal Anadl wrth Gysgu Rhwystrol (OSA).

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan y 'Welsh Sleep Apnoea Society'

Mae'r deisebwr wedi darparu wybodaeth ychwanegol, wedi ei atodi fel PET(3) 14-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-156.htm

**(v) P-03-167 Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint**

**Geiriad y ddeiseb**

'Mae'r South Wales Echo wedi dechrau ymgyrch i sicrhau y rhoddir triniaeth gyfartal ym Mro Morgannwg ar gyfer y llygad gyntaf, fel yr hyn sydd ar gael yn Abertawe yn awr ar gyfer y clefyd llygad dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint.

Maent wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau sy'n cynnwys Eileen Younghusband, sy'n dioddef o'r clefyd hwn ac sy'n ymgyrchu iddo fod ar gael i bawb lle bynnag y bônt yn byw yng Nghymru. Rhowch eich enw isod os ydych yn ei chefnogi. Diolch yn fawr.'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Eileen Younghusband a chasglwyd 141 o lofnodion.

Linc i'r deiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-167.htm

**(vi) P-03-171 Diogelwch Tân**

**Geiriad y ddeiseb**

'Yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn nodi'r cynlluniau newydd parthed rheoli perygl mewn sawl rhan o Gymru. Credwn y gall y cynlluniau hyn arwain at gynnydd mewn perygl mewn sawl cymuned.

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i weithredu er mwyn sicrhau bod safonau diogelwch ddim yn cael eu gostwng.'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhys Williams a chasglwyd 13 o lofnodion.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-171.htm

**(vii) P-03-172 Fferi Abertawe -Cork**

**Geiriad y ddeiseb**

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan y fferi rhwng Abertawe/Cork. Credwn y bydd iddi fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglwyd 29 o lofnodion. Casglwyd mwy na 1,500 o lofnodion a datganiadau o gefnogaeth ar wefan y deisebwr ei hun yn galw am adfer y llwybr fferi hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y deisebwr: h

ttp://www.bringbacktheswanseacorkferry.com/

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-172.htm

### (viii) P-03-148 Gwasanaeth trên rhwng Glynebwy a Chasnewydd

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno gwasanaeth trên uniongyrchol rhwng Glynebwy a Chasnewydd, yn galw mewn gorsafoedd rhwng y mannau hyn, a gwneud argymhellion i'r awdurdodau priodol.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel e-ddeiseb gan Jennifer Morgan a chasglwyd 37 o lofnodion.

### Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ysgrifennodd y Clerc at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo egluro safbwynt polisi Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas ag ymestyn llinell Glynebwy i Gasnewydd.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb ac mae ei ateb i'w weld fel atodiad PET(3) 14-08 Papur 3B.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-148.htm

### (ix) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i edrych ar fwriad y bwrdd iechyd lleol i gau Ysbyty Abertyleri a'r Cylch a rhoi sylw i'r mater.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Martha Lowman a chasglwyd 13 o lofnodion. Yn ychwanegol at hynny, casglodd y deisebwr 1,873 o lofnodion ychwanegol ar gyfer deiseb gysylltiol.

Mae'r deisebwr wedi darparu datganiad i gefnogi'r ddeiseb sydd i'w weld fel atodiad PET(3) 14-08 Papur 3C.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-166.htm

### (x) P-03-177 NASUWT

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, yn Swyddogion ac yn Aelodau o Gyngor Gweithredol Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Cymru, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caiff athrawon sy'n gweithio yng Nghymru eu had-dalu'n llawn am y gost o gofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'.

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan NASUWT Cymru. Roedd iddi ymgyrch cerdyn post gysylltiol a gasglodd 5,020 o gardiau post yn cefnogi'r ddeiseb.

Mae'r deisebwr wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

'The weight of support for this petition is reflected in the 5,020 postcards received by the NASUWT from teachers across Wales in protest against the decision to increase the registration fee from £33 to £45. The number of teachers who returned the postcards is greater than the number of teachers who voted in the 2008 GTCW elections.

Registration with the General Teaching Council is a condition of employment and, as such, the School Teachers' Pay and Condition document, which applies across England and Wales, makes provision for a General Teaching Councils' fee allowance. The allowance is currently set at £33. The General Teaching Council for England registration fee remains at £33.

The postcards provide a clear indication that teachers in Wales feel that they are being treated unfairly and are being penalised for working in Wales. This is firstly because the decision to raise the fee was made without consultation and secondly because of the apparent lack of concern shown by either the General Teaching Council for Wales or the Welsh Assembly Government about the fact that, unlike their colleagues in England, teachers in Wales will have to fund personally the additional payment.'

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-177.htm

**Gwasanaeth Pwyllgorau**

**Hydref 2008**